



Comisiwn Bevan Commission

Boots

# Iechyd ar y Stryd Fawr

## Adroddiad Bwrdd Crwn

**Chwefror 2025**

# Cynnwys

# 00


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | **01** |
| Cyd-destun | **01** |
| Beth yw ystyr 'Iechyd ar Y Stryd Fawr'? | **03** |
| Argymhellion a chamau nesaf | **05** |
| Casgliad | **10** |

# Cyflwyniad

Ym mis Hydref 2024, cynhaliodd Comisiwn Bevan drafodaeth Bwrdd Crwn, gan ddod â rhanddeiliaid allweddol ynghyd i drafod cysyniad 'Iechyd ar y Stryd Fawr'. Mae Comisiwn Bevan yn ddiolchgar i Boots am noddi'r digwyddiad gan ein galluogi i gynnal y drafodaeth bwysig hon.

Nod y digwyddiad oedd ennill dealltwriaeth well o'r hyn y mae pobl a chymunedau'n ei werthfawrogi i'w helpu nhw a'u teuluoedd i gynnal a gwella eu hiechyd a'u lles, ac i archwilio pa ddatblygiadau arloesol all fod yn bosib i helpu i ddiwallu'r anghenion hyn mewn cymunedau lleol.

Rydym yn wynebu heriau digynsail i'n gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru ac, yn y pen draw, i iechyd a lles ein poblogaeth. Mae gennym newidiadau demograffig cymhleth, gyda nifer cynyddol o bobl yn byw'n hirach â chyflyrau iechyd hirdymor, sy'n rhoi straen anferth ar wasanaethau sydd eisoes dan bwysau. Mae hyn, ar y cyd â heriau byd-eang megis Covid-19 a'r argyfwng hinsawdd, yn gofyn am ddatrysiadau arloesol newydd i sicrhau ein bod yn cefnogi iechyd a gofal mewn ffordd sy'n addas i'r dyfodol.

Mae angen gweithredu brys, wedi'i gydlynu gan yr holl randdeiliaid ac mae'r drafodaeth hon yn darparu cyfle allweddol i ymgysylltu â rhanddeiliaid traws-sector i archwilio sut gall cymunedau lleol a phartneriaid gyfrannu at ddarparu iechyd a gofal mwy integredig a chynaliadwy. Gyda'n gilydd, mae angen i ni ddod o hyd i ffyrdd newydd o ddylanwadu'n gadarnhaol ar iechyd a lles pobl ar draws Cymru.

# Cyd-destun

Mae'r dirwedd bresennol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn newid, ac mae angen i wasanaethau drawsnewid er mwyn ymateb i'r gofynion newidiol. Yn gyson ag adroddiad *Foundations for the Future Comisiwn Bevan*, mae hyn yn cynnwys meithrin pobl a chymunedau gwydn a dyfeisgar, dod o hyd i ddatrysiadau cynaliadwy ac arloesol i atal salwch a helpu pobl i reoli eu hiechyd a'u lles yn agosach at eu cartrefi yn eu cymunedau lleol.

Mewn ymateb i hyn, mae modd i fferyllfeydd lleol ehangu eu rôl drwy integreiddio datblygiadau digidol arloesol a mesurau iechyd ataliol i liniaru'r pwysau ar y GIG. Nid gwella gwasanaethau fferyllol yw unig nod y symudiad hwn, mae hefyd yn cynnwys ymyriadau iechyd ehangach ar y stryd fawr i liniaru'r pwysau ar y GIG a hyrwyddo iechyd hirdymor y cyhoedd. Mae eu mentrau, yn benodol o dan y contract 'Presgripsiwn Newydd', yn ceisio mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a gofal drwy dargedu cymunedau heb wasanaeth digonol a hyrwyddo gofal sy'n seiliedig ar werth.

Mae materion hygyrchedd yn parhau oherwydd nad yw'r cyhoedd yn ymwybodol o rai o'r gwasanaethau sydd ar gael. Mae angen addysg a negeseuon iechyd gwell i'r cyhoedd i normaleiddio darparu gwasanaethau yn y gymuned fel y dewis cyntaf, gan gynnig mwy o gyfleustra ac i helpu pobl i reoli eu cyflyrau'n well, gan atal uwchgyfeirio diangen i ofal eilaidd.

Mae Cymru'n wynebu problemau sylweddol o ran mynediad at ddata, sy'n amharu ar y gallu i wneud penderfyniadau gwybodus, a'r cyfle i wneud y gorau o fesurau iechyd rhagweithiol ac ataliol. Er enghraifft, mae un o bob pedair marwolaeth yng Nghymru yn deillio o gyflyrau megis pwysedd gwaed uchel sydd heb ddiagnosis, sy'n amlygu'r angen am ymwybyddiaeth gyhoeddus well a hunan-fonitro megis gwiriadau pwysedd gwaed, i hwyluso canfod y cyflwr yn gynnar a'i reoli.

Mae gofal sylfaenol a chymunedol, sy'n cyfrif am 91% o gysylltiadau'r GIG yng Nghymru, yn cael ei weld fel adnodd hanfodol ond un nad yw'n cael ei ddefnyddio'n ddigonol ar y Stryd Fawr. Dylid archwilio cyfleoedd i wasanaethau symud yn agosach at gymunedau, gan hyrwyddo mesurau atal a mynediad haws at ofal ymhellach. Mae enghreifftiau megis Hybiau Iechyd a Gofal Cymunedol, yn ogystal â gwasanaethau a ddarperir gan fusnesau megis fferyllfeydd ar y Stryd Fawr, eisoes yn datblygu.

Mae'r dirwedd ddigidol yn cynnig cyfleoedd pellach i wella gofal cymunedol, a fydd hefyd yn gofyn am newid diwylliannol, i groesawu gofal iechyd a chymdeithasol cyfartal ac integredig ym mywyd pob dydd ar draws Cymru.

Mae rôl cyflogwyr yn hanfodol, gyda chyfraddau absenoldeb salwch a chyfraddau gadael yn codi, gan amlygu'r angen am fentrau lles a arweinir gan fusnesau i gynnal gweithlu cynhyrchiol. Mae busnesau a sefydliadau megis Busnes yn y Gymuned (BITC) yn gwneud ymdrechion i wella lles yn y gweithle drwy astudiaethau ac offer sy'n helpu busnesau i ddeall gwerth economaidd gweithlu iach.

# Beth yw ystyr 'Iechyd ar Y Stryd Fawr'?

## Rhoi pwyslais ar y Gymuned a Hygyrchedd

Dylai llunwyr polisi ailgyfeirio sylw ac adnoddau priodol tuag at wasanaethau gofal sylfaenol a mynd i'r afael â heriau hygyrchedd, yn enwedig i bobl hŷn sy'n wynebu rhwystrau ymarferol megis trafnidiaeth, adnoddau a thechnoleg.

Y tu hwnt i ddibynnu ar leoliadau cymunedol traddodiadol, mae'n gwneud synnwyr hefyd i ymgysylltu â lleoliadau cyfarwydd, megis clybiau chwaraeon, tafarndai lleol, lleoliadau crefyddol. Drwy ddefnyddio asedau presennol a dylunio ystyrlon, gall mentrau iechyd ddod yn fwy effeithiol a chynhwysol, gan ymestyn y tu hwnt i leoliadau traddodiadol y Stryd Fawr i le bynnag mae pobl yn ymgynnull yn naturiol boed mewn cymunedau gwledig, yn y cymoedd neu mewn cymunedau trefol.

Gwneud i bob cyswllt gyfrif drwy gyfarfod pobl ble maen nhw, yn hytrach na chynllunio gwasanaethau o gwmpas strwythurau presennol. Mae'r dull hwn yn pwysleisio addasu'r ddarpariaeth iechyd a gofal i gyd-fynd ag amgylcheddau pob dydd pobl, gan sicrhau bod gwasanaethau'n hygyrch ac yn berthnasol. Mae hyn hefyd yn helpu i gyrraedd y rhannau mwyaf agored i niwed ac anghysbell o'r boblogaeth y mae hefyd angen y cymorth mwyaf arnynt gyda'u hanghenion iechyd a lles.

## Cefnogi Isadeiledd Iechyd a Gofal ar y Stryd Fawr yn strategol

Mae'r dirywiad yn strydoedd mawr Cymru yn amlygu'r angen i gynnal cymunedau ffyniannus a'r cyfleoedd i gynnwys iechyd a gofal yn y cynlluniau hyn. Gallai defnyddio lleoedd gwag ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus wella ymgysylltu â'r gymuned a gwella iechyd a lles cyffredinol wrth adfywio canol trefi.

Gall llunwyr polisi helpu i fynd i'r afael â'r agenda hon drwy gymryd cyfres o gamau gweithredu gan gynnwys addasu ardrethi masnachol, mynd i'r afael â materion mannau parcio, darparu mynediad gwell at doiledau cyhoeddus. Mae'r rhain yn elfennau allweddol i gefnogi stryd fawr iachach a mwy hygyrch a'i gwasanaethau a fydd, yn ei dro, yn hyrwyddo ffyrdd iachach o fyw.

Mae angen alinio  sawl elfen o iechyd a gofal yn strategol. Mae deall a manteisio ar aelodau dylanwadol o'r gymuned ac adeiladu ffydd yn allweddol i ysgogi newid yn naturiol a gwella effeithiolrwydd rhaglenni sy'n ymwneud ag iechyd.

## Cynnwys y gymuned gyfan

Argymhellir datblygu ymagweddau sy'n ymgysylltu â chymunedau lleol a sefydliadau trydydd sector i fynd i'r afael â materion iechyd yn fwy creadigol ac yn llai meddygol. Mae hyn yn cynnwys darparu cymorth meddygol ond hefyd integreiddio cymorth cymdeithasol a chymunedol i ddarparu gwasanaethau megis presgripsiynu cymdeithasol i fynd i'r afael â materion megis unigrwydd a chamfaethiad ymysg pobl hŷn.

Mae'n bwysig sicrhau bod unigolion yn llwyr ymwybodol o'r buddion a'r gwasanaethau y mae ganddynt hawl iddynt, a'u bod yn gallu cael mynediad atynt. Mae lledaenu'r wybodaeth hon yn allweddol i gefnogi'r rhai mewn angen, yn enwedig drwy sianeli dibynadwy megis sefydliadau trydydd sector sy'n chwarae rôl hollbwysig oherwydd eu hygrededd mewn cymunedau.

Un ffordd o gyflawni'r ymagwedd hon fyddai sefydlu hybiau lleol sy'n cynnwys amrywiaeth o wasanaethau gan gynnwys ymarferwyr cyffredinol, ymgynghorwyr tai, ymgynghorwyr budd-daliadau, elusennau a fferyllwyr lleol, i fynd i'r afael â'r materion amlweddog sy'n cael effaith sylweddol ar iechyd a lles claf.

## Rhannu Data a Chyfathrebu

Mae pwysigrwydd rhannu data yn hanfodol i wneud y gorau o iechyd pobl a darparu gofal cyfannol. Cafodd diffyg cyfathrebu effeithiol ei nodi'n broblem fawr yn adroddiad *Sgwrs â'r Cyhoedd* Comisiwn Bevan. Mae pobl yn cymryd yn ganiataol yn aml bod systemau data eisoes wedi'u cysylltu rhwng darparwyr gofal sylfaenol ac eilaidd gwahanol, ac nid yw hynny'n wir.

Bydd mynediad gwell at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn bosib drwy rannu gwybodaeth yn well, yn benodol drwy ddulliau digidol.

## Addysg a Grymuso

There is a need for patient and public health education to empower individuals to share responsibility and take control of their health. Simplifying health education and making it more accessible through the High Street or public venues like leisure centres and libraries can help people to independently manage their conditions more effectively.

Educational programmes such as Education for Patients Programme (EPP) have proven effective in enhancing patients' understanding of their conditions, leading to better health management and outcomes. Expanding and building upon such initiatives to empower more people to take greater control over their health offers further potential.

# Argymhellion a chamau nesaf

## 1 Ail-alinio Ffocws i Atal a Gofal Sylfaenol a Chymunedol a Mynd i'r Afael â Heriau Ymarferol i gael Mynediad at Iechyd a Gofal

**Blaenoriaethu a Chryfhau Gofal Sylfaenol:**

- Newid sylw ac adnoddau i gefnogi atal, ymyrryd yn gynnar a gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol. Sefydlu cyfleusterau neu hybiau gofal cymunedol (gan gynnwys y rhai ar y Stryd Fawr) lle mae sawl gwasanaeth ar gael mewn un lle.

**Mynd i'r afael â Rhwystrau Ymarferol i Fynediad:**

- Gweithredu datrysiadau i oresgyn anawsterau trafnidiaeth a gwneud y gorau o dechnoleg a datrysiadau digidol i ddarparu gofal yn nes at y cartref.
- Sicrhau bod gwasanaethau hanfodol megis fferyllfeydd cymunedol wedi'u lleoli'n gyfleus a'u bod yn darparu ystod o wasanaethau cymorth (megis profion pwynt gofal) a chymorth addysgol i'r cyhoedd. Cyfeirio proffesiynol gan fferyllfeydd cymunedol a darparwyr iechyd lleol eraill i gyfeirio pobl at y gwasanaethau priodol.
- Goresgyn tuedd i osgoi risg o fewn y GIG drwy annog arloesedd a phrif-ffrydio prosesau caffael a gweithredol i hwyluso rhoi cynnig ar ddatrysiadau ac arferion newydd, eu profi a'u mabwysiadu.

## 2 Gwella Hygyrchedd Data a Buddsoddi mewn Trawsnewidiad Digidol

**Gwella Mynediad at Ddata Iechyd a Grymuso Cleifion:**

- Hwyluso mynediad at ddata iechyd allweddol i sefydliadau dibynadwy, i ddatgloi cyfleoedd i wella a thargedu gwasanaethau a chymorth iechyd a gofal.
- Galluogi a chefnogi cleifion i gael mynediad at eu cofnodion meddygol eu hunain, gan eu grymuso i fod yn gyfranogwyr gweithredol yn eu taith iechyd a gofal. Enghreifftiau o systemau llwyddiannus megis 'Patient Knows Best,' lle gall pobl gael mynediad at eu data iechyd.
- Comisiynu ymgyrchoedd wedi'u dylunio i ysgogi'r cyhoedd, gofalwyr a chleifion, i roi mwy o wybodaeth iddynt am eu cyflwr, sut y gallant hunan-reoli materion, y sefydliadau sydd ar gael i'w cefnogi y tu allan i'r GIG a ffynonellau gwybodaeth a chymorth digidol dibynadwy.

**Buddsoddi mewn Isadeiledd Digidol:**

- Diweddaru systemau digidol yn y GIG, mynd i'r afael â darnio drwy fuddsoddi mewn systemau sy'n cydweddu i hwyluso cyfathrebu a rhannu data'n effeithlon.
- Cydweithio â busnesau sy'n graff iawn am dechnoleg, sydd â phrofiad o fapio llwybrau defnyddwyr i wella modelau darparu iechyd a gofal a dysgu gan y rhain.
- Cyflymu datblygiad a chyflwyniad ap cenedlaethol y GIG i wella hygyrchedd data i gleifion a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol.

## 3 Adfywio Strydoedd Mawr, Hyrwyddo Amgylcheddau Iach, a Mynd i'r Afael â Ffactorau Economaidd sy'n Dylanwadu ar Iechyd

**Adfywio Strydoedd Mawr i Gefnogi Iechyd a Lles:**

- Gweithredu polisïau megis lleihau ardrethi masnachol i siopau sy'n darparu cynnyrch a gwasanaethau iach i hyrwyddo opsiynau manwerthu iachach.
- Annog llywodraeth leol a gwasanaethau iechyd a gofal i feddiannu mannau gwag ar y Stryd Fawr, gan eu gwneud yn fwy hygyrch ac adnewyddu ymgysylltu â'r gymuned.
- Gwella isadeiledd ar strydoedd mawr i ddarparu ar gyfer pobl sydd â symudedd cyfyngedig.

**Hyrwyddo Mynediad at Fwyd Iach:**

- Gwella ansawdd y bwyd a ddarperir gan fanciau bwyd, yn ogystal â mynd i'r afael â sgiliau coginio, cyfleusterau ac anghenion maethol y defnyddwyr.
- Mynd i'r afael â materion megis fforddiadwyedd ac argaeledd bwyd iach, gan ddarparu cymorth i'r rhai hynny sydd ag adnoddau coginio cyfyngedig.

**Mynd i'r afael â Ffactorau Economaidd:**

- Cefnogi busnesau lleol i greu swyddi ac i leihau anweithgarwch economaidd, gan arwain at ganlyniadau iechyd gwell.
- Sicrhau bod unigolion yn ymwybodol o fudd-daliadau a gwasanaethau y mae ganddynt hawl i'w cael, gan hwyluso mynediad at gymorth angenrheidiol.

## 4 Gweithredu Dulliau Datblygu Cymunedol a Meithrin Cydweithredu ar Draws Sectorau

**Ymgysylltu â Chymunedau a Sefydliadau Trydydd Sector:**

- Cydweithio â grwpiau nid-er-elw a grwpiau cymunedol y gellir ymddiried ynddynt mewn cymunedau i helpu i gefnogi'r gwaith o gyflwyno negeseuon a mentrau iechyd.

**Grymuso Gwirfoddolwyr a Manteisio ar Ymddiriedaeth Gymunedol:**

- Cynnwys a chefnogi gwirfoddolwyr lleol mewn mentrau megis Rhaglenni Addysg i Gleifion a phresgripsiynu cymdeithasol. Darparu hyfforddiant a chymhellion i wirfoddolwyr i ysgogi a chynnal eu cyfranogiad a chydnabod eu cyfraniadau e.e., Pwyntiau Cerdyn Advantage Boots.
- Annog sefydlu grwpiau hunangymorth a rhwydweithiau cymheiriaid i wella cymorth iechyd cymunedol. Er enghraifft, grŵp hunangymorth canser y prostad lle mae rhannu profiadau personol wedi meithrin ffydd, grymuso cleifion a gwella canlyniadau.

**Meithrin Cydweithrediad a Chysondeb ar Draws Sectorau:**

- Sicrhau cysondeb a gwneud y gorau o gyfleoedd mewn negeseuon iechyd ar draws sectorau gwahanol i osgoi dryswch a gwella effeithiolrwydd.
- Datblygu integreiddio cryfach a gweithio ar draws gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol o fewn cymunedau lleol.
- Annog arweinyddiaeth i groesawu cymryd risgiau rhesymol, galluogi staff a sefydliadau i weithredu'r newidiadau a'r datblygiadau arloesol angenrheidiol.

## 5 Gwella Addysg Iechyd i Gleifion a'r Cyhoedd wrth Gydbwyso Anghenion Iechyd Brys a Hirdymor

**Ehangu Rhaglenni Addysg ac Annog Hunanofal:**

- Cynyddu argaeledd rhaglenni addysg iechyd megis y Rhaglen Addysg i Gleifion (EPP) mewn lleoliadau hygyrch megis y Stryd Fawr, canolfannau hamdden, llyfrgelloedd a hybiau cymunedol. Hyrwyddo rhaglenni a mentrau sy'n grymuso unigolion i gymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu hiechyd eu hunain drwy well gwybodaeth ac adnoddau.

**Cydbwyso Blaenoriaethau Iechyd Brys a Rhai'r Dyfodol:**

- Dosbarthu adnoddau'n strategol i ddarparu gofal rhagweithiol i boblogaethau presennol wrth fuddsoddi mewn mesurau atal ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Defnyddio fframweithiau polisi megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i lywio mentrau iechyd rhagweithiol a chynaliadwy.

**Defnyddio Strategaethau Newid Ymddygiad:**

- Cymhwyso theorïau newid a thechnegau marchnata eraill i ddylanwadu ar newidiadau ymddygiad sylfaenol, yn debyg i ymgyrchoedd iechyd cyhoeddus llwyddiannus.

# Casgliad

Mae iechyd yn gyfrifoldeb pawb, a bydd gweithio gyda'n gilydd ar draws asiantaethau, sefydliadau a grwpiau proffesiynol yn hanfodol i wella iechyd a lles yn y gymuned, lle mae pobl yn byw, yn gweithio ac yn chwarae.

Mae llawer o gyfleoedd i'n helpu i drawsnewid ein Stryd Fawr leol yn un sy'n cefnogi iechyd a lles cynaliadwy, gan greu pobl a chymunedau bywiog, gwydn a dyfeisgar. Mae gan fanwerthwyr a gwasanaethau eraill ar y Stryd Fawr rôl bwysig i'w chwarae yn hyn, gan weithio gyda phobl leol a gwasanaethau eraill i ddatblygu negeseuon a gwasanaethau cyson a chryf i gefnogi iechyd a lles.

Mae'r adroddiad hwn wedi dod â gwybodaeth a meddyliau ystod eang o bobl o wasanaethau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ynghyd i nodi sut gallwn ddatblygu cysyniad 'Iechyd ar y Stryd Fawr.' Ni all hyn gael ei wireddu gan unigolion ar eu pennau eu hunain ond bydd angen cydweithio a chydweithredu creadigol i brofi a rhoi cynnig ar ddatrysiadau arloesol sy'n addas ar gyfer heddiw a'r dyfodol.

Bydd defnyddio'r holl asedau lleol i'w heffaith orau, gan gynnwys adeiladau, manwerthwyr, gwasanaethau a phobl, yn hanfodol wrth wneud y gorau o botensial llawn iechyd ar y stryd fawr. Mae'r adroddiad hwn a'i argymhellion yn darparu man cychwyn defnyddiol i feithrin a thyfu'r bobl a'r cymunedau iach y mae pawb eisiau eu gweld, nawr ac i genedlaethau'r dyfodol.

Comisiwn Bevan Commission

School of Management,
Swansea University Bay Campus,
Fabian Way, Swansea SA1 8EN

www.bevancommission.org
bevan-commission@swansea.ac.uk
+44 (0)1792 604 630